## Amcanion Cydraddoldeb Ysgolion a Chynllun Gweithredu

Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn mis Medi 2024. Bydd yr adolygiad blynyddol cyntaf yn cael ei gynnal yn nhymor yr hydref 2025, a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadlewyrchu yn dilyn y dyddiad hwn.

| ***Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2027***<br>**Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu** |
|---|
| ***Amcan cydraddoldeb 1: Cefnogi grwpiau o ddisgyblion, gan yn ymateb i'w anghenion yn effeithiol, a monitro cynnydd pob disgybl yn rheolaidd.*** |
| ***Ein hymchwil:***<br>*Mae cefnogi ein holl ddisgyblion yn yr ysgol yn holl bwysig i ni. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn rhaglenni cefnogi pwrpasol er mwyn cefnogi lles, datblygiad llythrennedd a rhifedd ein disgyblion.*<br>*Rydym yn monitro a thracio cynnydd pob disgybl yn rheolaidd, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael y gefnogaeth orau bosib, ac yn cael pob cyfle i wneud y cynnydd gorau bosib yn yr ysgol.*<br>*Cefnogi ein holl ddisgyblion i gael cyfle cyfartal i fod yn uchelgeisiol, ac i wneud cynnydd.* |
| ***Gwybodaeth o ymgysylltu:***<br>*Mae staff yn cyd-weithio'n agos er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth orau bosib ar gael i bob un o'n disgyblion wneud y cynnydd gorau bosib.*<br>*Sicrhau bod ein holl staff yn ymwybodol, ac yn ymateb i anghenion ein disgyblion, drwy gynnig cefnogaeth sydd wedi ei dargedu, ac adnoddau pwrpasol er mwyn ymateb i anghenion ein disgyblion yn effeithiol.* |
| ***Datblygu data:***<br>*Dadansoddiad o ganlyniadau allanol gan gynnwys PASS, canlyniadau profion cenedlaethol, sgyrsiau proffesiynol.* |
| ***Mae'r amcan hwn yn llwyddiannus os…*** |

- yw’r data yn dangos fod y 'bwlch' rhwng bechgyn a merched wedi lleihau, a’r disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol.
- Mae disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth sydd wedi ei dargedu yn gwneud cynnydd priodol yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn monitro’r cynnydd yn rheolaidd, ac yn ei addasu yn ôl yr angen.
- Mae’r data yn dangos fod y 'bwlch' rhwng y rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi lleihau.
- Dengys fod gan ddisgyblion bregus gyfleoedd cyfartal i ffynnu a chyflawni.

**Camau Gweithredu:**

| | **Disgrifiad** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Monitro a mireinio ein cwricwlwm er mwyn galluogi cyfleoedd i fechgyn a merched gyflawni a ffynnu. | CP/ athrawon dosbarth | Medi 2024 | Parhau/ addasu yn ol yr angen |
| 1.2 | Ymateb i anghenion unigolion gan sicrhau bod cefnogaeth priodol ar gael i bawb. | Pawb | Medi 2024 | Parhau |
| 1.3 | Sicrhau bod gan yr ysgolion system tracio a monitro effeithiol. | Pawb | Medi 2024 | Parhau |
| 1.4 | Sgyrsiau proffesiynol- Cynnig rhaglenni cefnogaeth pwrpasol, sydd wedi ei dargedu’n effeithiol i ymateb i anghenion ein disgyblion. | Pawb | Medi 2024 | Parhau |

## *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2027*

**Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu**

***Amcan Cydraddoldeb 2: Parhau i gyd-weithio a*** **chryfhau partneriaethau gyda rhieni a’r gymuned i gefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant.**

***Ein hymchwil:***

Mae cymuned yr ysgolion yn gefnogol iawn , ac yn gynhwysol iawn. Mae angen parhau i gryfhau'r cyswllt hwn, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb.

***Gwybodaeth o ymgysylltu:***

*Parhau i gryfhau'r cywllt hefo'r gymuned, a chyfleoedd cyfartal i bawb, gan gynnwys sicrhau bod ymdeimlad cynhwysol, croesawgar, ac ymdeimlad o berthyn yn parhau i ddatblygu i bawb.*

***Datblygu data:***

*. Holiaduron rhieni, disgyblion a chymuned yr ysgol*

*Gweithgareddau cynhwysol i ddisgyblion*

*Sicrhau bod llais y plentyn yn weithredol yn yr ysgol, ac yn cael ei adlewyrchu yn ein gweithgareddau, ac ym mywyd yr ysgol yn gyson.*

***Bydd yr amcan hwn yn llwyddiannus os...***

- Fydd y ddarpariaeth, a'r gwybodaeth i ddisgyblion, staff, rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r gymuned ar gael i bawb ac yn gynhwysol.

Camau Gweithredu:

| | **Disgrifiad** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Holiaduron i rieni a disgyblion yr ysgolion.<br>Sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ddatblygu'n gyson e.e drwy gynghorau'r ysgol a gweithgareddau diwrnod hawliau plant. | CP | Mai 2024 | Parhau |
| 1.2 | Sicrhau cyfathrebu clir gyda disgyblion, rhieni a chymuned yr ysgolion, gan gynnwys pawb. | CP/Pawb | Medi 2024 | Parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cychwyn cylchlythyr wythnosol er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. | | | |

## *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2027*

**Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu**

***Amcan Cydraddoldeb 3: Monitro presenoldeb grwpiau o ddysgwyr drwy'r ysgol.***

***Ein hymchwil:***

Mae nifer o ddisgyblion yn cyrraedd ein targed presenoldeb o 95%, ond nid yw pob disgybl ar hyn o bryd. Mi fyddwn ni'n ymdrechu i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb, drwy gyd-weithio gyda theuluoedd er mwyn cefnogi presenoldeb pob disgybl i fod y gorau y gall fod.

***Gwybodaeth o ymgysylltu:***

*Monitro presenoldeb holl ddisgyblion yr ysgol yn fisol, gan dracio, a gosod lliw- coch- o dan 90%, melyn- rhwng 90-95%, gwyrdd- 95% +. Mi fyddwn ni'n cynnig cymorth i deuluoedd disgyblion gyda phresenoldeb isel, er mwyn cefnogi pob plentyn i gael cyfle cyfartal, a mynediad cystal a phosib at y cwricwlwm cyflawn, a chymaint o brofiadau dysgu â phosib i bawb.*

***Datblygu data:***

*Data presenoldeb- traciwr, Cofnodion cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr/ llythyrau*

***Bydd yr amcan hwn yn llwyddiannus os:***

- Bydd y nifer o ddisgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn gostwng. (Bydd y nifer o ddisgyblion sy'n bodloni'r targed presenoldeb ysgol yn cynyddu).

Camau Gweithredu:

| | Disgrifiad | Cyfrifoldeb | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Monitro presenoldeb bob disgybl yn yr ysgol- system liwiau gwyrdd, melyn a coch.<br>Athrawon dosbarth i gysylltu yn gyntaf os ydi presenoldeb yn parhau yn isel dros gyfnod o 3 mis/ 1 tymor. | CP | Medi 2024 | Parhau |
| 1.2 | Parhau i fonitro- Catrin Phillips i gysylltu hefo rhieni os ydy'r sefyllfa yn parhau. | CP | Medi 2024 | Parhau |

## *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024*

**Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu**

***Amcan Cydraddoldeb 4: Adolygu'r mynediad i gyfleusterau i ddisgyblion, staff a rhieni.***

***Ein hymchwil:***

*Mae ardaloedd o fewn yr ysgol wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn blaenoriaethu sicrhau mynediad addas i bawb (cynllun hygyrchedd)*

***Gwybodaeth o ymgysylltu:***

*Amlygodd adborth gan staff/llywodraethwyr a disgyblion ardaloedd o amgylch yr ysgol lle mae gan ddisgyblion anabl fynediad cyfyngedig neu ddim mynediad ar hyn o bryd.*

***Datblygu data:***

*Cwblhau elfennau o'r PIP i sicrhau y gall yr holl ddisgyblion gael mynediad i ardaloedd o amgylch yr ysgol.*

***Bydd yr amcan hwn yn llwyddiannus os:***

- Yw'r ysgol wedi ystyried anghenion disgyblion gydag anawsterau corfforol a nam ar y synhwyrau wrth gynllunio a mynd i'r afael a gwelliannau ac unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol e.e. gwella mynediad, arwyddion clir i gyfleusterau a gosodiadau mwy hygyrch.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Asesiadau risg ar gyfer disgyblion unigol i'w cynorthwyo ar y safle. | | | | |
| Camau Gweithredu: | | | | |
| | **Disgrifiad** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** |
| 1.1 | Cynnal taith Iechyd a diogelwch tair gwaith y flwyddyn- un gyda'r llwodraethwyr, staff a disgyblion er mwyn sicrhau bod safle'r ysgol yn parhau i ddatblygu, a chynnig mynediad addas i bawb at yr holl gyfleusterau. | CP | Tachwedd 2024 | Parhau |
| 1.2 | Sicrhau bod arwyddion pwrasol yn cael eu gosod ar y safle yn ol yr angen | CP | Medi 2024 | Parhau |